Taflenni Gwaith

Atodiad 3

Gweithgareddau Mapio Cymunedol

Gweithgareddau Mapio Cymunedol

Gellir bod dau ddull i hwn:

i. Gweithgaredd torri'r iâ i annog pobl i drafod a cherdded o amgylch yr ystafell yn dysgu pethau am ei gilydd. Caiff pob person restr o gwestiynau am eu cymuned leol i ofyn i'r bobl eraill. Bydd y person cyntaf i gael ateb i bob cwestiwn yn gweiddi BINGO ac yn ennill.

ii. Gweithgaredd ysgrifenedig grŵp / unigol – Caiff pob person / grŵp daflen o gwestiynau bingo am eu cymuned leol a bydd gofyn iddynt lenwi'r blychau. Bydd y person cyntaf i gwblhau'r daflen yn gweiddi BINGO ac yn ennill.

Amser:

- 20 munud

Niferoedd:

- Unigolion / Parau / Grwpiau o hyd at 6 y bwrdd

Cyfarwyddiadau:

- Rhoi'r daflen bingo
- Tîm Cyntaf i'w llenwi yn ennill gwobr
- Cyfle i drafod atebion a rhoi'r wybodaeth i fyny ar y wal.

Adnoddau:

- Beiros
- Taflenni bingo
- Gwobrau Bingo

Gweithgareddau Mapio Cymunedol

Y person cyntaf i ddod o hyd i rywun sydd…

Cerddwch o gwmpas yr ystafell, y person cyntaf i ddod o hyd i'r holl atebion ac i alw 'bingo' yw'r ennillydd.

Cwestiwn	**Ateb**
1. Â chwaer sy'n mynd i'r Brownies	
2. Yn trefnu'r arddangosfa tân gwyllt flynyddol	
3. Wedi byw yn Ystradowen am dros ddeng mlynedd	
4. Wedi byw yn Ystradowen am lai na blwyddyn	
5. Â'r un arwydd sidydd (star sign) â chi	
6. Yn aelod o glwb sy'n cwrdd yn Neuadd Bentref Ystradowen	
7. Wedi cyfarfod rhywun enwog	
8. Wedi ennill y loteri	

Bingo cymunedol

● Beth ydych chi'n teimlo'n angerddol amdano yn eich ardal leol?	● Pa sgiliau allech chi eu defnyddio yn y gymuned?	● Beth yw'ch 3 hoff beth am yr ardal?
● Lle yw'r lle gorau i fynd yn yr ardal?	● Nodwch 3 o wasanaethau yr ydych yn eu defnyddio yn eich ardal.	● Lle yw calon yr ardal?
● Pa wasanaethau ydych chi'n eu defnyddio y tu allan i'r ardal?	● Pa wasanaethau hoffech chi weld yn cael eu gwella yn yr ardal?	● Pa wasanaethau hoffech chi weld yn cael eu gwella yn yr ardal?
Unrhyw sylwadau eraill?		
Os rydych yn dymuno bod yn rhan o'r project, nodwch eich enw a'ch manylion cyswllt:		

Coeden ddymuniadau

Gweithgaredd i gael adborth am ddyheadau'r gymuned. Gellir gwneud hwn mewn grŵp o 4 neu ragor o bobl. Mae'r gweithgaredd hwn yn ffordd dda o dderbyn adborth anffurfiol mewn sesiynau galw i mewn a sgyrsiau cychwynnol yn ogystal ag mewn ymarferion grŵp mewn grwpiau ffocws.

Amser:

- 30 munud

Niferoedd:

- Grwpiau bach yn cynnwys 4 - 5 o bobl

Cyfarwyddiadau:

- Tynnwch lun o goeden gyda changhennau a gwreiddiau, ond heb ddail
- SESIWN SYNIADAU SYDYN – Caiff pob un 3 papur nodyn i ysgrifennu ei 3 dyhead ar gyfer dyfodol ei gymuned
- Mewn grŵp, rhannwch y dyheadau hyn ar gyfer y dyfodol a'u defnyddio i greu Coeden Ddymuniadau:
    - Efallai y bydd y gwreiddiau'n cynrychioli gwerthoedd sylweddol e.e. Diwylliant, cynaliadwyedd, lleddfu tlodi
    - Gall y boncyff gynrychioli rhaglenni neu adnoddau yn y gymuned a all helpu'r gwerthoedd hyn.
    - Gall y canghennau fod yn ganlyniadau penodol (e.e. mwy o weithgareddau ieuenctid)

Adnoddau:

- Papur siart fflip
- Beiros i bawb
- Sisyrnau
- Nodiadau Post It / cardiau wedi'u torri i siapiau gwahanol

Does unman yn debyg i adre!

Ymarfer unigol i ddysgu lle mae'r cyfranogwyr yn cael gwasanaethau ac unrhyw rwystrau sy'n eu hatal rhag defnyddio'r gwasanaethau. Caiff y cyfranogwyr daflen bapur a bydd gofyn iddynt dynnu llun calon yn y canol gyda'i god post.

Amser:

- 30 munud

Niferoedd:

- Unigol

Cyfarwyddiadau:

- Rhoi taflen gyda chalon arni, sef eu cartref
- Gofyn iddynt roi llinellau o'r galon i'r blychau i nodi:
  - Pa gyfleusterau neu gwasanaethau y maen nhw'n eu defnyddio?
  - Ble mae'r gwasanaethau / cyfleusterau?
  - Pryd y maen nhw'n eu defnyddio, a sut y maen nhw'n eu cyrraedd?
  - Oes unrhyw rwystrau?

Adnoddau

Taflenni wedi'u Paratoi

Beiros

Does unman yn debyg i adre!

Yn y galon ysgrifennwch eich cyfeiriad, ac yna

1. Rhowch linell o'r galon i un o'r blychau

2. Ym mhob blwch, nodwch:

    - Pa gwasanaethau maent yn eu defnyddio?
    - Ble mae'r gwasanaethau / cyfleusterau?
    - Pryd ydych chi'n eu defnyddio nhw?
    - Sut mae cyrraedd nhw?
    - Oes unrhyw rwystrau?

Does unman yn debyg i adre!

Rydym am ddarganfod pa wasanaethau ydych chi'n eu defnyddio yn eich ardal leol, er mwyn sicrhau ein bod yn cynnig y gwasanaethau cywir yn y dyfodol.



Beth? _____

Ble? _____

Sut? _____

Rhwystrau? _____

Beth? _____

Ble? _____

Sut? _____

Rhwystrau? _____

Beth? _____

Ble? _____

Sut? _____

Rhwystrau? _____

Mapio heb fapiau

Mae'r ymarferiad hwn yn galluogi cyfranogwyr i feddwl am adnoddau a chyfleusterau yn eu hardal, yn benodol y rhai hynny y maen nhw'n gyfarwydd â hwy. Galluogi dadl am yr hyn sydd yn eu cymunedau.

Amser:

- 45 munud

Niferoedd:

- Unigol

Cyfarwyddiadau:

- Rhoi taflen wag i gyfranogwyr a gofyn iddynt fapio eu hardal (er enghraifft eu taith i'r ysgol neu i'r siopau) a gofyn iddynt nodi'r cyfleusterau cymunedol y maen nhw'n eu pasio ar hyd y ffordd.
- Gofyn i gyfranogwyr rannu eu mapiau gyda'r grŵp.

Adnoddau

Beiros ffelt

Papur siart fflip

Mapiau corff

Ymarfer grŵp a fydd yn tynnu llun corf a gofyn i gyfranogwyr roi papur Post It™ ar hyd y corf i ddangos yr hyn maent yn ei garu am yr ardal, i ble maent yn mynd a beth yw eu dyheadau ar gyfer y dyfodol.

Amser:

- 30 munud (mapiau corff) ac o leiaf awr (camau nesaf)

Niferoedd:

- Grwpiau bach yn cynnwys rhwng 3 - 6 o bobl

Cyfarwyddiadau:

Tynnwch lun o amlinell corff

- Lluniwch galon: Beth ydych chi'n ei garu am eich cymuned?
- Nodwch y pen: Beth yw eu dymuniadau / gobeithion am ddyfodol yr ardal?
- Nodwch y coesau: Ble maen nhw'n mynd yn Sain Tathan? Pa gyfleusterau maen nhw'n eu defnyddio?
- Trafodwch y canlyniadau fel grŵp.

Mapio Trigolion, Fy Hoff Lefydd

Gweithgaredd grŵp yn cynnwys cyfranogwyr yn rhoi papurau Post It™ ar fap mawr o'r ardal yn nodi'r hyn maent yn ei wybod am eu cymuned leol. Mae'r ymarfer yn ffordd dda o gael adborth ffurfiol mewn sesiynau galw i mewn a chychwyn sgyrsiau yn ogystal ag ymarferion mewn grŵp ffocws.

Amser:

- 30 munud

Niferoedd:

- Grŵp mawr neu grŵp bach

Cyfarwyddiadau:

- Dechreuwch gyda'r cwestiwn 'beth ydych chi'n ei wybod am eich cymuned leol?'
- Gofyn i'r cyfranogwyr nodi beth sy'n bwysig iddyn nhw, y cyfleusterau yr ydym yn eu defnyddio yn yr ardal, sut rydyn ni'n defnyddio'r ardal, pwy sy'n actif yn yr ardal?

Adnoddau:

- Cardiau
- Beiros
- Pinnau
- Tâp gludiog
- Map gwag mawr o'r ardal

Anghenion a Chamau Nesaf

- Nodwch unrhyw gamau penodol y dylai'r grŵp eu cyflawni er mwyn ateb y cwestiynau a chyflawni'r dyheadau.
- Trafodwch ac ystyriwch:
  - Pwy sydd angen i'r grŵp siarad â hwy er mwyn dysgu mwy?
  - Pa 'bethau' neu offer sydd eu hangen ar y grŵp (h.y. camerâu, mapiau ac ati)
- Mewn grŵp, nodwch y camau nesaf y mae pobl eisiau eu cymryd – cynlluniwch eich camau nesaf, cyfarfodydd, targedau, amcanion a gweithgareddau allgyrsiol.
- luniwch gynllun gweithredu drafft.

Adnoddau:

- Rhôl o bapur / papur siart fflip
- Beiros siart fflip

Taflen waith 7

Dychmygu delweddau a mapio â lluniau

Mae gofyn i gyfranogwyr ddal eu cymuned mewn ffotograffau, bydd gofyn iddynt dynnu lluniau o bethau neu leoedd sy'n arwyddocaol iddynt neu y maent yn eu gweld yn bwysig. Gellir gwneud hyn yn unigol neu mewn grwpiau bychain fel rhan o grŵp ffocws. Gallwch ofyn i unigolion roi adborth am pam mae'r ffotograffau'n cynrychioli eu cymunedau.

Amser:

- 4 1/2 hours (1 sesiwn drafod mewnol)

Niferoedd:

- Mwyafswm o 5 o bobl fesul grŵp

Cyfarwyddiadau:

- Cyflwynwch y proses dychmygu delweddau
- Eglurwch wrth gyfranogwyr mai amcan y gweithgaredd hwn yw cael lluniau o'r gymuned
- Eglurwch am y camera a phwysleisiwch y broses greadigol (onglau doniol, cyfansoddiadau diddorol)
- Gofyn i gyfranogwyr i dynnu lluniau o lefydd a phethau sy'n:
  - bwysig iddyn nhw neu y maen nhw'n eu hystyried yn bwysig yn y gymuned.
  - Teimlo'n ddiogel a ddim yn ddiogel
- Gofyn i bawb yn y grŵp i gymryd yr un nifer o luniau
- Os yw'n ardal fawr, gallwch rannu'r grŵp a mynd i wahanol ardaloedd

Sesiwn adborth

- Uwchlwythwch neu brintiwch y lluniau fel bod modd i'r grŵp edrych arnyn nhw gyda'i gilydd
- Mewn grwpiau o 4 i 5 o bobl, gofynnwch i'r cyfranogwyr rannu eu hoff 4-5 llun ac egluro pam eu bod wedi dewis y rhai hynny.
- Labelwch y lluniau ac egluro beth y maen nhw'n eu cynrychioli yn eu cymuned

Adnoddau

- Camerâu
- Pad nodiadau a phapur i ysgrifennu nodiadau, lleoliadau'r lluniau a sylwadau
- Mapiau'r ardal
- Ffurflenni caniatâd sy'n rhoi caniatâd i ddefnyddio'r lluniau pan fo cyfranogwyr ynddyn nhw
- Nodiadau Post It
- Papur siart fflip
- Beiros ffelt
- Cyfrifiadur (os yw'n defnyddio camerâu digidol)

Mapio asedau cymunedol

(yn seiliedig ar asedau corfforol a chymdeithasol)

Gweithgaredd grŵp sy'n dod â'r gymuned ynghyd er mwyn diffinio'r gwahanol fathau o gaffaeliadau corfforol/cymdeithasol sydd ym mhob ardal. Mae'r ymarfer hwn yn ffordd dda o gael adborth anffurfiol mewn sesiynau galw i mewn a chychwyn sgyrsiau yn ogystal ag ymarferion grŵp mewn grwpiau ffocws.

Amser:

- 1 awr

Niferoedd:

- Hyd at 15 o bobl

Cyfarwyddiadau:

- Diffiniwch y mathau o asedau gwahanol
- Gofyn wrth gyfranogwyr:
  - Pa asedau sydd ar gael yn eu cymuned?
  - Ydyn nhw wedi'u gwasgaru? Sut?
  - Pwy sy'n defnyddio'r cyfleuster?
  - Pwy allai fod yn defnyddio'r cyfleuster?
  - Ar gyfer pa weithgareddau y mae'r cyfleuster yn cael ei ddefnyddio?
  - At ba ddibenion allai e gael ei ddefnyddio?
  - Beth sydd ddim ar gael, a beth fyddai'n gwneud y gymuned yn le gwell i fyw?

Adnoddau:

- Dotiau gludiog lliwgar amrywiol
- Argraffiad mawr o fap yr ardal

Creu gweledigaeth

Ymarfer grŵp sy'n rhoi'r gallu i grŵp/tîm craidd bennu gweledigaeth ar gyfer eu project. Gall hwn fod yn ymarfer canlynol wedi nifer o'r ymarferion uchod, yn cynnwys y goeden ddyheadau a'r gweithgareddau mapiau corf; gall hyn greu gweledigaeth ar gyfer y gymuned.

Amser:

- 1 awr

Niferoedd:

- Hyd at 10 o bobl

Cyfarwyddiadau:

- Sicrhau bod cyfranogwyr yn ysgrifennu tri pheth sy'n bwysig ar gyfer dyfodol y gymuned yn eu barn nhwy
- Rhoi hynny ar bapurau siart fflip
- Grwpio'r geiriau yn ôl prif themâu (efallai y bydd angen helpu'r grŵp i feddwl am y themâu))
- Ceisiwch ddod â'r geiriau at ei gilydd i greu gweledigaeth

Adnoddau

- Nodiadau gludiog
- Beiros
- Papur siart fflip